**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyflwyniad i gynllun Glastir ac i gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn y Deyrnas Unedig

Chwefror 2011

Mae'r papur ymchwil hwn yn rhoi trosolwg ar gynllun Glastir, sef cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Cymru.

Mae manylion cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n gweithredu mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 11/0329

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyflwyniad i gynllun Glastir ac i gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn y Deyrnas Unedig

Chwefror 2011

Hannah Rose

Rhif dogfen: 11/012

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Miss Rose gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a ganiataodd i'r papur hwn gael ei orffen.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

## Crynodeb

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael eu hariannu o dan Echel 2 o Golofn Datblygu Gwledig y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae Archwiliad Iechyd y PAC, a gafodd ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2008, yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod-wladwriaeth roi sylw i risgiau a heriau newydd megis newid yn yr hinsawdd yn eu Cynlluniau Datblygu Gwledig o 2014 ymlaen. Gwelodd adolygiad o gynlluniau Echel 2 yng Nghymru fod y cynlluniau cyfredol heb amcanion clir, mesuradwy ac nad oedden nhw'n rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Archwiliad Iechyd y PAC. Yn sgil yr adolygiad, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC, y byddai cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, Glastir, yn disodli'r cynlluniau presennol o Ionawr 2012 ymlaen.

Mae Glastir yn cynnwys elfen lefel mynediad Cymru gyfan, sy'n agored i bob ffermwr, elfen wedi'i thargedu ar lefel uwch, a honno'n targedu materion sy'n peri pryder mewn blaenoriaethau sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw, elfen Tir Comin, elfen grantiau cyfalaf ACRES (Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol) ac elfen annibynnol Creu Coetiroedd.

Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol tebyg sydd â haen lefel mynediad a haenau uwch ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond yn yr Alban mae un cynllun yn cynnwys Echelau 1, 2 a 3 o Golofn Datblygu Gwledig y PAC.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg a chymhariaeth fer o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd ar waith yn y Deyrnas Unedig.

# Cynnwys


**1. Rhagymadrodd** ..... **1**

**2. Glastir** ..... **2**

2.1. Y Nodau ..... 3
2.2. Yr elfen Cymru gyfan ..... 4
Cod y Fferm Gyfan ..... 5
Pecyn rhanbarthol ..... 5
Ffermydd mynydd ..... 5
Ffermydd organig ..... 5
Pecyn ffermydd llaeth ..... 6
2.3. Yr elfen wedi'i thargedu ..... 6
2.4. Yr elfen tir comin ..... 6
2.5. Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACRES) ..... 7
2.6. Creu Coetiroedd ..... 7
2.7. Trefniadau Pontio ..... 8

**3. Cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill y Deyrnas Unedig** ..... **9**

3.1. Lloegr: Y Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol ..... 9
3.2. Yr Alban: Contractau Datblygu Gwledig ..... 12
3.3. Gogledd Iwerddon: Cynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon ..... 13

**4. Rhagor o wybodaeth** ..... **14**

# Cyflwyniad i gynllun Glastir ac i gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill yn y Deyrnas Unedig

## 1. Rhagymadrodd

Mae datblygiadau amaethyddol a gwledig yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn cael eu hariannu o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae colofn un y PAC, sydd fel arall yn cael ei hadnabod fel Cynllun y Taliad Sengl, yn darparu cymhorthdal incwm i ffermwyr sy'n cadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC). Mae colofn dwy, sydd fel arall yn cael ei galw'n **Golofn Datblygu Gwledig**, yn cynnig cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir am ddarparu nwyddau amgylcheddol a chymorth i economïau a chymunedau gwledig.

Mae Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cymorth at ddatblygu gwledig (2005/1698/ EC) yn amlinellu pedair echel y gall arian gael ei wario o danyn nhw:

**Echel 1** - gwella cystadleurwydd y sector amaethyddiaeth a choedwigaeth

**Echel 2** - gwella'r amgylchedd a chefn gwlad

**Echel 3** - gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi gwledig

**Echel 4** – elfen 'Leader' ar gyfer gweithredu mentrau datblygu sy'n gweithio o'r gwaelod i fyny (gwneir hyn drwy'r tair echel arall)[1,2]

Mae **cynlluniau amaeth-amgylcheddol** yn perthyn o dan Echel 2 ac maen nhw'n cynnig arian i ffermwyr am reoli eu tir mewn modd sydd o fudd i fioamrywiaeth a nodweddion y tirlun, ac sy'n gwella ansawdd y dŵr a'r pridd. Gellir meddwl amdanyn nhw fel petai'r wladwriaeth yn prynu:

> … environmental goods and services (public goods) from farmers who would otherwise not supply them.[3]

Ym mis Tachwedd 2008, amlinellodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion ar gyfer Archwiliad Iechyd ynglŷn â'r PAC. Adolygodd yr Archwiliad Iechyd sut roedd diwygiad 2003 wedi'i roi ar waith, gan ganolbwyntio ar sut i wneud Cynllun y Taliad Sengl yn fwy effeithiol. Ystyriodd hefyd sut y gellid sicrhau bod y PAC yn dal yn berthnasol, a sut y gallai'r PAC addasu at risgiau, heriau a chyfleoedd newydd.[4] Cafodd y cynigion eu mabwysiadu ar 25 Tachwedd 2008[5] ac erbyn hyn

---

[1] Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 07/1083, *Cyllid Datblygu Gwledig yng Nghymru*, Ebrill 2007 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[2] Rheoliad y Cyngor 2005/1698/EC, OJ L 227, 21.10.2005 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[3] Llywodraeth Cymru, "Cynnal y Tir" *Adolygiad o Gamau Rheoli Tir o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13*, Medi 2008 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[4] Papur Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau 08/007, *EU Common Agriculture Policy: 2008 Health Check*, Chwefror 2008 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[5] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig), *Cytundeb Gwleidyddol ar Archwilaid Iechyd y Pac*, (Datganiad llafar) 25 Tachwedd 2008 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]

mae'n ofynnol i holl Aelod-wladwriaethau'r UE roi sylw i'r heriau newydd sy'n cael eu creu gan newid yn yr hinsawdd, rheoleiddio dŵr a chynhyrchu egni adnewyddadwy yn eu Cynlluniau Datblygu Gwledig o 2014 ymlaen.

## 2. Glastir

Ym mis Medi 2008, cafodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC, ei sbarduno, ar ôl i'r cynigion yn Archwiliad Iechyd y PAC gael eu mabwysiadu, i gyhoeddi adolygiad o gynlluniau Echel 2 yng Nghymru. Gwelodd yr adolygiad fod y cynlluniau amaeth-amgylchedd cyfredol heb amcanion a heb waelodlin clir i gymharu eu llwyddiant yn ei erbyn. Oherwydd hynny, allai eu llwyddiant ac i ba raddau y maen nhw'n rhoi sylw i'r Archwiliad Iechyd ddim cael eu hasesu. Ar ben hynny, dim ond yn rhannol yr oedd y cynlluniau cyfredol yn mynd i'r afael ag amcanion *Strategaeth Amgylcheddol Cymru*.[6,7]

Yn sgil yr adolygiad, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'r pedwar cynllun o dan Echel 2 yng Nghymru (Tir Cynnal, Tir Gofal, Tir Mynydd a'r Cynllun Ffermio Organig), **o 1 Ionawr 2112 ymlaen,** yn cael eu cyfuno'n un cynllun newydd, o dan y teitl Glastir, i roi sylw i'r heriau newydd a amlinellwyd yng nghynigion yr Archwiliad Iechyd. Mewn datganiad i'r cyfarfod llawn, rhoddodd y Gweinidog ei rhesymau dros y newid:

> Mae'r cynlluniau presennol wedi bod yn effeithiol, ond **yr oedd y cyd-destun yn wahanol bryd hynny**. Mae'n rhaid i'r cynllun rheoli tir ar gyfer y degawd nesaf ymateb i'r heriau a amlinellwyd yn agenda archwiliad iechyd y polisi amaethyddol cyffredin, y cytunwyd arni fis Tachwedd diwethaf. Yr heriau hyn—sef y newid yn yr hinsawdd, rheoli tir a bioamrywiaeth—fydd sail cynlluniau rheoli tir ledled Ewrop o 2014 ymlaen. Pe byddem yn mynd ati i gyflwyno cynllun na fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, byddai'n ddigon posibl y byddai angen newid y cynllun hwnnw ymhen ychydig flynyddoedd, a byddai hynny'n tarfu unwaith eto ar y sector ac yn arwain at wastraff gweinyddol sylweddol. Yr ydym yn rhagweld y bydd newidiadau mawr i gynllun taliad sengl y polisi amaethyddol cyffredin yn 2014 hefyd, ac mae'n bwysig ein bod yn **osgoi dwy set o newidiadau mawr ar yr un pryd**.
>
> Euthum ati'n ofalus i ystyried a fyddai modd addasu'r cynlluniau sy'n bodoli eisoes er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol. Mae Tir Mynydd yn gynllun digolledu sy'n cydnabod y ffaith bod costau ychwanegol yn dod i ran y rheini sy'n ffermio mewn ardaloedd mwy ymylol, a bod eu hincwm hefyd yn is. O dan **reolau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer taliadau digolledu ac o fewn y gyllideb sydd ar gael, nid oes modd gwella'r cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a amlinellwyd yn yr archwiliad**

---

[6] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o weithredau rheolaeth tir dan Echel 2 o'r Cynllun Datblygaeth Gwledig i Gymru 2007-2013, Medi 2008 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[7] Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru: y cynllun gweithredu cyntaf*, Mai 2006 [wedi'i gyrchu 3 Chwefror 2011]
Strategaeth Amgylcheddol Cymru yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru. Mae Cam Gweithredu 31 o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth yn dweud "Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Gwledig fel cyfle i newid pwyslais a sicrhau y targedir mwy o'n cynlluniau amaeth-amgylcheddol a rheoli tir i gyfl awni ein blaenoriaethau amgylcheddol, yn arbennig addasu i newid hinsawdd, mynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig a gwella bioamrywiaeth."

**iechyd**. O'r herwydd, yr wyf wedi penderfynu **nad yw addasu'r cynlluniau presennol yn ddewis ymarferol** er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn sefydlog yn y tymor hir.[8]

Ym mis Gorffennaf 2010 cyhoeddodd y Gweinidog ymhellach y byddai cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) yn cael ei ddisodli gan Glastir hefyd.[9] Er nad cynllun amaeth-amgylcheddol oedd BWW, roedd yn cael ei ariannu'n rhannol o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig 2007-2013. Y Comisiwn Coedwigaeth oedd yn gweinyddu'r cynllun, a oedd yn cynnig grantiau at waith plannu, ailstocio a rheoli coetiroedd yng Nghymru.[10]

## *2.1. Y Nodau*

Y nodau sydd wedi'u datgan ar gyfer Glastir yw:

- Taro'r cydbwysedd rhwng yr angen i gynhyrchu bwyd a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd[11]
- Bod yn agored i bawb[12]
- Helpu bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr[13]
- Gwasgaru'r arian ar gyfer gweithredu gwaith amaeth-amgylcheddol yn fwy eang ymysg ffermwyr[14]

Mae Glastir wedi'i fwriadu i dalu'r costau sy'n cael eu hysgwyddo neu'r incwm sy'n cael ei golli am fod ffermwyr yn darparu nwyddau amgylcheddol, gan annog ffermwyr i reoli eu tir mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar newid hinsawdd a'r amgylchedd.[15]

O dan gynllun Glastir, fydd ceisiadau am ddwy ffordd o ddefnyddio'r tir ddim yn cael eu caniatáu mwyach. Er enghraifft, fydd landlord ddim yn cael gwneud cais mwyach am gynlluniau amaeth-amgylcheddol tra bydd tenant yn gwneud cais am Gynlluniau'r Taliad Sengl.[16]

Rhaid i'r ffermydd sy'n ymuno â'r cynllun gadw Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a chyrraedd safonau Croesgydymffurfio Cynllun y Taliad Sengl. Am bum mlynedd y bydd y contractau'n cael eu dal.

---

[8] Cofnod y Trafodion, 5 Mai 2009
[9] Hysbysiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, *Darparu grantiau coetir drwy gynllun Glastir,* 26 Gorffennaf 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[10] Y Comisiwn Coedwigaeth, *Coetiroedd Gwell i Gymru: canllaw grant* , Mawrth 2010 [wedi'i gyrchu 3 Chwefror 2011]
[11] Cofnod y Trafodion, 16 Mawrth 2010
[12] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig), *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru: Yr Adolygiad o Echel 2*, Datganiad Llafar 5 Mai 2009 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[13] ibid
[14] Cofnod y Trafodion, 8 Rhagfyr 2010
[15] Cofnod y Trafodion, 17 Tachwedd 2010
[16] Llywodraeth Cymru, *Glastir Cynllun Newydd i Gymru ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy* , Tachwedd 2009 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]

**Bydd pum cydran yn y cynllun** – elfen Cymru gyfan, elfen wedi'i thargedu, elfen Tir Comin, ACRES (Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol) a'r elfen Creu Coetiroedd, sef elfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun.[17]

## *2.2. Yr elfen Cymru gyfan*

Dyma elfen lefel mynediad y cynllun ac mae'n agored i bob ffermwr yng Nghymru sydd â mwy na thri hectar o dir. Bwriad hyn yw cynyddu nifer y ffermwyr, ac felly arwynebedd y tir ffermio, sydd o dan reolaeth amaeth-amgylcheddol yng Nghymru.[18] Mae'r elfen hon yn cynnig "porth" i mewn i elfennau eraill Glastir[19] - rhaid sicrhau contract Cymru gyfan er mwyn gwneud cais am holl elfennau Glastir heblaw'r elfen Tir Comin a'r elfen Creu Coetiroedd. Bydd y ffermwyr hefyd yn cael dewis o blith rhestr o opsiynau a phob opsiwn yn werth hyn a hyn o bwyntiau, er enghraifft plannu coed cynhenid, rheoli gwrychoedd, cadw sofl dros y gaeaf a throi tir âr sy'n bwysig o ran archaeoleg yn laswelltir parhaol. Fel yn achos y cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol, bydd yna drothwy pwyntiau a bydd rhaid i bob ymgeisydd gyrraedd neu groesi'r trothwy er mwyn sicrhau y caiff ymuno â'r cynllun.[20] Bydd nifer y pwyntiau y mae eu hangen yn dibynnu ar faint y fferm, a rhaid i fferm fwy sicrhau mwy o bwyntiau.

Caiff aelodau'r cynllun **gyfradd safonol o £28 yr hectar**. Bydd y taliadau'n uwch yn achos ffermydd yr Ardaloedd Llai Ffafriol (gweler isod). Bydd ffermwyr sy'n ymuno â'r elfen wedi'i thargedu yn cael taliadau yn ychwanegol at daliadau Cymru gyfan. Mae'r gyfradd safonol hon yn is nag yn y cynlluniau blaenorol. Roedd taliadau Tir Cynnal yn 2011 yn amrywio o **£45 yr hectar** i ffermydd o dan 20 hectar i ryw **£12.50 yr hectar** i ffermydd â 200 hectar a rhagor.[21] Roedd y taliadau cyfartalog am bob hectar yn 2003 ar gyfer Tir Gofal yn amrywio o **£258 yr hectar** i ffermydd o lai nag 20 hectar i **£58 yr hectar** i ffermydd o fwy na 200 hectar.[22] Er hynny, gan nad oedd y cynlluniau hyn yn talu cyfradd safonol am bob hectar, does dim modd eu cymharu'n uniongyrchol â Glastir. Hefyd, does dim tâl am waith cyfalaf o dan gynllun Glastir am fod cost gwaith cyfalaf wedi'i gynnwys yn y gyfradd safonol.[23] Roedd Tir Gofal yn cynnig taliadau ychwanegol at waith cyfalaf.

Ceir nifer o elfennau eilaidd o fewn elfen Cymru gyfan.

---

[17] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[18] ibid
[19] Llywodraeth Cymru, *GWLAD Rhifyn Arbennig – Haf 2010: Glastir*, 29 Mehefin 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[20] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cwestiynau Cyffredin,* Tachwedd 2010 [wedi'i gyrchu 2 Chwefror 2011]
[21] Llywodraeth Cymru, *Llyfryn Rheolau'r Cais Sengl 2010,* Mawrth 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[22] Agra CEAS Consulting, *Socio-economic evaluation of Tir Gofal: Final report for Countryside Council for Wales and Welsh Assembly Government*, Ionawr 2005 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]

[23] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, *Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Gynllun Glastir gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig*, 28 Ebrill 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]

## *Cod y Fferm Gyfan*

Ar ben taliad cyfradd safonol Cymru gyfan, bydd ffermydd sy'n cadw at God y Fferm Gyfan yn cael **£15 yr hectar** am yr 20 hectar cyntaf, **£8 yr hectar** am y 30 hectar nesaf a **£2.75 yr hectar** am yr 50 hectar nesaf.[24] Set o safonau ar gyfer ymarfer amaethyddol da yw Cod y Fferm Gyfan, gan gynnwys cyfyngiadau ar wasgaru slyri, storio tail a silwair, codi creigiau a llosgi llystyfiant.[25]

## *Pecyn rhanbarthol*

Caiff ffermwyr naill ai dewis opsiynau rheoli o'r rhestr lawn er mwyn cyrraedd eu trothwy pwyntiau ynteu cyfyngu eu dewisiadau i'r rhai sydd ar gael mewn Pecyn Rhanbarthol. Mae Pecyn Rhanbarthol yn cynnwys rhestr fyrrach o opsiynau y credir eu bod yn cynnig y budd mwyaf o ran cadwraeth mewn rhanbarth penodol. Caiff ffermwyr sy'n dewis gwneud cytundeb Pecyn Rhanbarthol 10 y cant yn fwy o bwyntiau am bob opsiwn.[26]

## *Ffermydd mynydd*

Yn 2011, o dan gynllun Tir Mynydd, roedd ffermydd yr Ardal Lai Ffafriol (ALFf) yn cael **£28.50 yr hectar** am dir yn yr Ardaloedd dan Anfantais Fawr (AdAF) a **£24 yr hectar** am dir yn yr Ardaloedd dan Anfantais (AdAF).[27] I wneud iawn am gau'r cynllun Tir Mynydd, a gaeodd i geisiadau newydd yn 2010, bydd gan y rhai sy'n ffermio yn yr ALFf hawl i gael 20 y cant o gynnydd yn eu taliad Cymru gyfan, i ryw **£33.60 yr hectar**.[28] Bydd hyn, am y tro cyntaf, yn cynnwys ffermydd llaeth yr ALFf. O dan gynllun Glastir, **does dim gwahaniaeth rhwng AdA ac AdAF yn yr ALFf**.[29]

## *Ffermydd organig*

Mae'r **trothwy pwyntiau** y mae angen ei gyrraedd i ymuno â'r cynllun Glastir wedi'i ostwng **50 y cant** yn achos ffermydd lle mae'r cyfan o'r tir sy'n cael ei gynnwys yn y cynllun wedi'i ardystio'n dir organig. Drwy Glastir yn unig y bydd

---

[24] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cwestiynau Cyffredin,* Tachwedd 2010 [wedi'i gyrchu 2 Chwefror 2011]
[25] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[26] ibid
[27] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, *Ymchwiliad i Ddyfodol Ardaloedd yr Ucheldir yng Nghymru: Papur Briffio*, 4 Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[28] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig) *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru: Echel 2*, Datganiad Llafar 5 Mai 2009
[29] Llywodraeth Cymru, *Llyfryn Rheolau'r Cais Sengl 2010,* Mawrth 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]

cymorth ariannol i droi'n organig ar gael – fydd ffermydd organig sy'n dewis peidio ag ymuno ag elfen Cymru gyfan ddim yn gymwys.[30]

### *Pecyn ffermydd llaeth*

Mae'r pecyn Ffermydd Llaeth yn cynnig yr un opsiynau ag elfen Cymru gyfan. Ond, i sicrhau bod Glastir yn cynnwys ffermydd llaeth, cafodd y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer opsiynau o fewn elfen Cymru gyfan ac sy'n fwyaf perthnasol i ffermydd llaeth, megis rheoli glaswelltir, **eu cynyddu 10 y cant**.[31]

## *2.3. Yr elfen wedi'i thargedu*

Bydd yr elfen uwch hon yn cael ei thargedu'n ddaearyddol, gan ganolbwyntio ar chwe maes sy'n peri pryder:

- rheoli carbon yn y pridd
- ansawdd dŵr
- rheoli swm dŵr
- bioamrywiaeth
- yr amgylchedd hanesyddol
- gwella mynediad.[32]

Dim ond i ffermwyr mewn ardal sydd wedi'i diffinio ymlaen llaw y byd yr elfen wedi'i thargedu yn agored, a'r ffermwyr hynny'n rhan o gynllun Cymru gyfan ac yn gallu gwireddu'r deilliannau y dymunir eu sicrhau. Bydd y camau sydd i'w cymryd yn y cynllun lefel uchel yn cael eu rhagnodi, gan anelu at weithio ar raddfa gydweithredol neu ar raddfa dalgylch, er bod Llywodraeth Cymru'n dweud y bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran cymryd y camau rhagnodedig ar lefel y fferm unigol dry negodi rhwng ffermwyr a swyddogion prosiect.[33] Mae'r cyfraddau talu dangosol hyd yn hyn yn amrywio o **£2 am bob coeden gonifferaidd a dynnir** i fwy na **£2,000 yr hectar** am dynnu rhododendronau.[34]

## *2.4. Yr elfen tir comin*

Caiff ffermwyr sydd â hawliau tir comin ac sydd wedi ffurfio Cymdeithas Bori neu Gymdeithas Cominwyr wneud cais am daliadau Glastir ar gyfer tir comin. Os nad

---

[30] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[31] Llywodraeth Cymru, *Pecyn y fferm odro*, Mai 2010 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[32] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[33] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cwestiynau Cyffredin,* Tachwedd 2010 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[34] Llywodraeth Cymru, *Glastir: yr elfen wedi'i thargedu*, Hydref 2010 [wedi'i gyrchu 2 Chwefror 2011]

oes Cymdeithas Cominwyr ar gael eto, caiff Prif Borwr dynodedig lenwi'r cais. Er hynny, mae'n rhaid ffurfio Cymdeithas Cominwyr sy'n cynnwys o leiaf 80 y cant o'r porwyr gweithredol erbyn 31 Rhagfyr 2013. Mae Swyddogion Datblygu Tir Comin wedi'u penodi i helpu i sefydlu Cymdeithasau Pori/Cymdeithasau Cominwyr i ymuno â'r cynllun Glastir.[35]

Nid yw'r elfen tir comin yn gweithredu ar sail system bwyntiau. Yn hytrach, mae'n rhaid i bawb sy'n pori'r tir comin naill ai:

- Cadw at cyfnod cau o dri mis o'r bron rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth bob blwyddyn pan fydd rhaid symud yr holl stoc oddi ar y comin

  neu:

- Reoli uchder y dywarchen drwy gydol y flwyddyn drwy newid y dwysedd stocio. Bydd y gofynion o ran uchder y dywarchen yn dibynnu ar yr amrywiaeth o fathau o lystyfiant ar bob comin penodol.[36,37]

Rhaid i'r Gymdeithas Cominwyr sicrhau bod pob porwr yn cadw at amodau'r contract Glastir a'r Gymdeithas fydd yn gyfrifol am weithredoedd yr holl borwyr ar y comin, ni waeth a ydy'r porwyr hynny'n rhan o'r Gymdeithas neu beidio.[38]

Os oes gan un porwr hawliau dros ran o dir comin, rhaid iddo gynnwys hynny yn ei ffridd a gwneud cais am yr elfen Cymru gyfan.[39]

## *2.5. Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACRES)*

Mae ACRES yn agored i ffermydd sydd â chontractau gweithredol o dan elfen Cymru gyfan y cynllun Glastir ac mae'n cynnig grantiau cyfalaf o **rhwng £3,000 a £50,000** i dalu hyd at **40 y cant o gost prynu offer** at effeithlonrwydd egni, cynhyrchu egni neu gasglu dŵr glaw.[40]

## *2.6. Creu Coetiroedd*

Disodlodd yr elfen Creu Coetiroedd gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru ym mis Ionawr 2011. Mae'r elfen hon yn agored i bob rheolwr tir – does dim rhaid cael contract Cymru gyfan. Bydd Creu Coetiroedd yn gweithredu fel cynllun ar ei ben ei

---

[35] Llywodraeth Cymru, *Gwlad,* Rhifyn 102 (t 4-5), Ionawr 2011 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[36] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]
[37] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Taflen Wybodaeth Pedwar: Elfen Tir Comin Cymru Gyfan*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[38] Llywodraeth Cymru, *Elfen Tir Comin Glastir: Sefydlu Cymdeithas Cominwyr neu Borwyr* , Tachwedd 2010 [wedi'i gyrchu 3 Chwefror 2011]
[39] Llywodraeth Cymru, *Glastir a thir comin ag un porwr,* Tachwedd 2010 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[40] Llywodraeth Cymru, *Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 27 Ionawr 2011]

hun nes iddo gael ei integreiddio yn y cynllun Glastir ym mis Ionawr 2013.[41,42] Mae tri grant ar gael o dan yr elfen hon:

- **Grantiau sefydlu** – caiff rheolwr tir wneud cais am y grant hwn am y flwyddyn y mae'r gwaith plannu coed yn cael ei wneud ynghyd â'r ddwy flynedd wedyn. Yn y flwyddyn gyntaf mae'r taliadau'n amrywio o **£500 yr hectar** ar gyfer coetir bach syml i **£3,500 yr hectar** am blannu rhywogaethau cynhenid yn ôl dwysedd o 2,500 yr hectar. Mae'r taliadau'n gostwng yn y blynyddoedd dilynol i rhwng **£150 a £500 yr hectar**.
- **Grant ffensio** – mae **£3.15 y metr** ar gael tuag at ffensys, clwydi a chamfeydd.
- **Grantiau colli incwm (premiwm creu coetiroedd)** – caiff ffermwyr wneud cais am **£300 yr hectar** y flwyddyn am 15 mlynedd a chaiff rheolwyr tir wneud cais am **£66 yr hectar** y flwyddyn am 15 mlynedd.

Rhaid i'r coetiroedd gael eu cadw'n rhydd rhag stoc am 10 mlynedd ar ôl y taliad cyntaf, neu am 15 mlynedd os gwneir cais am y Premiwm Creu Coetiroedd.[43]

## *2.7. Trefniadau Pontio*

Mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad ynghylch y cyfnod pontio rhwng cynlluniau presennol Echel 2 a'r cynllun Glastir, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig nifer o gynlluniau pontio.[44] Mae cynlluniau Tir Cynnal a Thir Gofal wedi'u cau bellach i ymgeiswyr newydd ond bydd y rhai sydd â chytundeb ar hyn o bryd yn cael cynnig estyniad ac maen nhw'n gallu aros yn y cynlluniau hynny **tan ddiwedd 2013** pryd y bydd rhaid trosglwyddo i'r cynllun Glastir os ydyn nhw'n dymuno parhau i gael taliadau. Bydd deiliaid cytundebau presennol y cynllun Ffermio Organig hefyd yn cael ymuno â'r cynllun Glastir ar ôl i'w cytundebau presennol ddirwyn i ben.[45] Nid yw ffermydd yn **cael derbyn taliadau Glastir am waith a gafodd ei gwblhau o'r blaen o dan Dir Gofal** neu Dir Cynnal, megis creu cynefinoedd.[46] **Caiff taliadau olaf Tir Mynydd eu rhoi yn 2012.** Caiff y ffermwyr y gyfradd dâl lawn am dir cymwys yn 2012, nid 60 y cant yn 2012 a 30 y cant yn 2013 fel a gyhoeddwyd o'r blaen.[47]

---

[41] Cofnod y Trafodion, p96, 27 Ionawr 2011, Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[42] Hysbysiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, *Darparu grantiau coetir drwy gynllun Glastir*, 26 Gorffennaf 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[43] Llywodraeth Cymru, *Rheolau Cynllun Creu Coetiroedd Glastir*, Rhagfyr 2010 [wedi'i gyrchu 1 Chwefror 2011]
[44] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig) *Trefniadau pontio o dan Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig 2007-13 sy'n gysylltiedig â lansio'r cynllun Glastir newydd*, Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 14 Gorffennaf 2007 [wedi'i gyrchu 15 Ionawr 2010]
[45] ibid
[46] Cofnod y Trafodion, p100, 27 Ionawr 2011, Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[47] Llywodraeth Cymru, *Ffermwyr Cymru i dderbyn taliadau llawn Tir Mynydd yn 2012*, 16 Rhagfyr 2010 [wedi'i gyrchu 3 Chwefror 2011]

Ar 23 Tachwedd 2010 cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig ei bod wedi comisiynu adolygiad annibynnol ar elfen Cymru gyfan y cynllun Glastir. Bydd yr adolygiad yn ystyried y broses ymgeisio, materion ymarferol ynghylch rhoi'r opsiynau rheoli rhagnodedig ar waith ar lefel y fferm ac a fydd y camau rhagnodedig yn gwireddu'r deilliannau a ddymunir.[48] Fe allai hyn arwain at newidiadau yn y rhagnodiadau sydd ar gael i ffermwyr o dan elfen Cymru gyfan y cynllun Glastir. Er hynny, fydd strwythur, egwyddorion a deilliannau sylfaenol Glastir ddim yn newid. Bydd y newidiadau'n gymwys i ffermydd sy'n ymuno â chylch 2011 o geisiadau am ymuno yn 2013. Bydd ffermydd sydd eisoes wedi ymuno â chylch ceisiadau 2010 er mwyn ymuno yn 2012 yn cael dewis addasu eu contractau yn unol â'r newidiadau hyn neu beidio.[49] Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi gofyn i Gadeirydd yr Adolygiad Annibynnol adrodd yn ôl iddi erbyn dechrau mis Mawrth.

Yn ystod y cylch cyntaf o geisiadau (2010), gwnaeth **2,904 o ffermydd gais** i'r elfen Cymru gyfan yn y cynllun Glastir.[50] Nid yw'n hysbys hyd yn hyn faint o'r ceisiadau hyn fydd yn arwain at gytundeb. Mae tua **3,100 o gytundebau Tir Gofal** a **4,300 o gytundebau Tir Cynnal** wedi'u **hymestyn tan 2013**.[51]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llyfrynnau gwybodaeth am gynllun Glastir ac mae'r rhain ar gael yma:
http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/100111glastiranewstartcy.pdf
http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/100407glastirinsertcy.pdf

## 3. Cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill y Deyrnas Unedig

### *3.1. Lloegr: Y Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol*

Mae'r cynllun amaeth-amgylcheddol Stiwardiaeth Amgylcheddol (ESS) i ffermwyr Lloegr yn **debyg iawn i'r cynllun Glastir**. Cafodd ei lansio ym mis Mawrth 2005, ac mae'r ESS yn disodli'r Lwfans i Ffermwyr y Bryniau, y cynllun Stiwardiaeth Wledig, y cynllun Ardaloedd Amgylchedd Arbennig a'r cynllun Gwella Bywyd Gwyllt. Mae'r **contractau'n para am bum mlynedd**, ac eithrio Stiwardiaeth Lefel Uwch (gweler isod).

[48] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Y Gweinidog dros Faterion Gwledig), *Review of the All-Wales Element Applications under the Glastir scheme,* Datganiad Ysgrifenedig Cabinet, 18 Ionawr 2011
[49] ibid
[50] ibid
[51] Adroddiad y Gweinidog i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, RDC(3)-02_11, 27 Ionawr 2011

Mae'r cynllun yn cynnwys pedair elfen.[52,53]

1. Mae **Stiwardiaeth Lefel Mynediad (ELS)** yn gytundeb i'r fferm gyfan sydd wedi'i seilio ar bwyntiau ac mae'n debyg i elfen Cymru gyfan y cynllun Glastir. Caiff ffermwyr a rheolwyr tir ddewis o blith mwy na **60 o opsiynau rheoli tir sylfaenol** er enghraifft sofl estynedig dros y gaeaf a rheoli gwrychoedd. Caiff ffermwyr cymwys daliadau o **£30 yr hectar** y flwyddyn, ac eithrio parseli o dir nad yw'n AdAF o 15 hectar neu fwy uwchlaw llinell y gweunydd, sy'n cael **£8 yr hectar** y flwyddyn. **Does dim** taliadau ar gael at waith cyfalaf.

   Mae **tir comin** neu borfeydd cyffredin yn gymwys ar gyfer yr ELS. I wneud cytundeb, rhaid i un cais gael ei wneud am y darn cyfan o dir comin neu borfa gyffredin, a rhaid iddo gael ei lofnodi gan **y tirfeddiannwr**, gan aelod o'r **gymdeithas cominwyr**, neu os nad oes cymdeithas ar gael, gan **unrhyw borwr gweithredol** sy'n fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr ymrwymiad i'r ELS a thros rwymedigaethau yn sgil peidio â chydymffurfio.

2. Mae **Stiwardiaeth Organig Lefel Mynediad (OELS)** yn debyg i'r ELS ond bod ffermwyr organig, neu'r rhai sy'n trosi i ffermio organig, yn cael taliadau uwch o **£60 yr hectar** y flwyddyn.[54]

3. Cafodd **Stiwardiaeth Lefel Mynediad yr Ucheldir/Stiwardiaeth Lefel Mynediad Organig yr Ucheldir (ELS Ucheldir/OELS Ucheldir)** ei lansio ym mis Chwefror 2010 i wobrwyo ffermwyr mewn AdAF am sicrhau gwelliannau yn y tirlun a'r amgylchedd, er enghraifft ffensys i atal defaid o amgylch coetiroedd ac adfer gwrychoedd. Dechreuodd y cytundebau cyntaf ym mis Gorffennaf 2010 ac mae **targed o gael 80 y cant o ffermydd yr AdAF i ymuno wedi'i osod ar gyfer 2015.** Mae'r elfen hon yn disodli Lwfans Ffermydd y Bryniau (HFA).

   Mae'r taliadau'n uwch nag ar gyfer yr elfen debyg yn y cynllun Glastir, sef elfen Cymru gyfan yr Ucheldir.  Mae ffermwyr anorganig yn cael **£62 yr hectar** y flwyddyn am dir yn yr AdAF o dan linell y gweunydd neu barseli o dir yn yr AdAF sy'n llai na 15 hectar sydd uwchlaw llinell y gweunydd a **£23 yr hectar** am barseli yn yr AdAF sy'n fwy na 15 hectar ac sydd uwchlaw Llinell y Gweunydd. Mae **taliad atodol o £5 yr hectar ar gael ar dir comin** sydd â dau neu fwy o borwyr gweithredol. Er hynny, rhaid cael Cymdeithas Cominwyr er mwyn cael atodiad tir comin ELS yr Ucheldir ac mae yna nifer o

---

[52] Natural England, *Entry Level Stewardship Environmental Stewardship Handbook Third Edition*, Ionawr 2010 [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]
[53] Defra, *Environmental Stewardship*, Tudalen gwe [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]
[54] Natural England, *Organic Entry Level Stewardship Environmental Stewardship Handbook Third Edition*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]

gyfyngiadau er enghraifft o ran bwydo atodol.[55] Mae ffermwyr organig yn cael hyd at **£92 yr hectar** y flwyddyn am dir AdAF.[56]

**4.** Mae **Stiwardiaeth Lefel Uchel (HLS)** yn debyg i'r **elfen wedi'i thargedu yn y cynllun Glastir**. Mae'r HLS yn cael ei seilio fel arfer ar un o'r Stiwardiaethau Lefel Mynediad; ond nid yw hynny'n orfodol. Mae'r cynllun yn targedu bioamrywiaeth, y tirlun, nodweddion hanesyddol a diogelu adnoddau mewn ardaloedd sydd wedi cael blaenoriaeth uchel. Mae'r elfen hon hefyd yn cynnig cyfleoedd i ysgolion a grwpiau buddiannau arbennig gynnal ymweliadau addysgol â ffermydd a chefn gwlad. Mae cytundebau'r HLS yn **gytundebau deng-mlynedd cystadleuol** sy'n cynnwys rheoli'r tir mewn modd cymhleth ac arbenigol. Gall y ffermwyr ddewis o blith mwy na **90 o opsiynau rheoli** er enghraifft plotiau ar gyfer cymysgedd o hadau i ddenu adar gwyllt, cynnal coed hynafol ar feysydd âr ac adfer tir gwlyb ar gyfer adar dŵr. Mae'r taliadau'n amrywio o **£25 am bob coeden hynafol i £700 yr hectar** am greu cynefin rhynglanwol a chynefin heli ar dir âr. Mae taliadau at waith cyfalaf ar gael hefyd.[57]

I helpu ffermwyr i wneud cais i'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol, mae Natural England yn cynnal gweithdai gwybodaeth ac ymweliadau â ffermydd ledled Lloegr.

Ar 13 Rhagfyr 2010 roedd dros **45,000 o gytundebau ESS** wedi'u gwneud. Gan gynnwys cytundebau yn y cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, mae hyn yn gyfystyr â bron **70 y cant o dir ffermio Lloegr** o dan 57,000 o gytundebau amaeth-amgylchedd.[58] Serch hynny, chafodd y cylch cyntaf o geisiadau mo'r un llwyddiant. O'r 60,000 o geisiadau a anfonwyd allan, dim ond 10,600 o gytundebau a oedd wedi'u gwneud erbyn dechrau Rhagfyr 2005.[59]

Yn ei ddyddiau cynnar, cafodd ymagwedd gynhwysol eang yr elfen ELS yn yr ESS groeso gan y diwydiant amaethyddol a chan grwpiau amgylcheddol. Er hynny, mae'r manteision wedi'u hamau gan rai ecolegwyr a oedd yn teimlo y dylai'r adnoddau fod wedi'u targedu ar lai o ffermydd o ansawdd uwch, a bwrw mai diogelu bioamrywiaeth yw nod y cynllun.[60] Mae yna bryder hefyd nad oes yna wobr i ffermwyr a hoffai wneud mwy na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer yr ELS, ond nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer yr HLS.[61]

---

[55] Natural England, *Entry Level Stewardship Environmental Stewardship Handbook Third Edition*, Ionawr 2010 [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]
[56] Natural England, *Organic Entry Level Stewardship Environmental Stewardship Handbook Third Edition*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]
[57] Natural England, *Higher Level Stewardship Environmental Stewardship Handbook Third Edition*, Chwefror 2010 [wedi'i gyrchu 26 Ionawr 2011]
[58] Natural England, *Environmental Stewardship Update*, Ionawr 2011 [wedi'i gyrchu on 26 Ionawr 2011]
[59] Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Senedd, *Farmland and Wildlife: Postnote 254*, Rhagfyr 2005 [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[60] ibid
[61] ibid

## *3.2. Yr Alban: Contractau Datblygu Gwledig*

Mae'r Contractau Datblygu Gwledig (RDCs) sy'n cael eu cynnig yn yr Alban yn ehangach na'r cynlluniau amaeth-amgylchedd mewn mannau eraill gan eu bod nhw **hefyd yn cynnwys opsiynau sy'n rhoi sylw i Echelau 1 a 3** o Golofn Datblygu Gwledig y PAC. Mae'r **contractau'n cael eu dal am 5 mlynedd gydag opsiwn o ymestyn i 10 mlynedd.**

Mae'r RDCs yn cynnwys dau gynllun:

**1.** Mae **Opsiynau Rheolwyr Tir (LMO)**[62] yn gynllun lefel mynediad sy'n helpu ffermwyr i ddarparu manteision i'r economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Gall y ffermwyr ddewis o blith rhestr o opsiynau lle nad oes angen fawr o fewnbwn er enghraifft Hyfforddiant Datblygu Sgiliau (Echel 1), cnydau bioamrywiaeth ar ffriddoedd (Echel 2) a gwellau llwybrau sy'n cynnig mynediad cyhoeddus (Echel 3).

Mae'r LMO yn agored i bob ffermwr – **does dim angen cyrraedd trothwy pwyntiau i fod yn gymwys** fel yn achos Glastir a'r ESS. Yn hytrach, caiff y ffermwyr ddewis unrhyw nifer o opsiynau hyd at eu lwfans blynyddol, sef uchafswm o **£75 yr hectar** am y 10 hectar cyntaf, gan ostwng wrth i faint y tir gynyddu.

Bydd cyfran ffermwr o **dir comin** yn cyfrannu at ei lwfans. Ond, does dim modd i borwyr unigol ymgymryd â'r opsiynau amaeth-amgylcheddol, yr opsiynau mynediad a'r opsiynau coetir ar borfeydd tir comin. Fe gaiff Cymdeithasau Cominwyr/Cymdeithasau Pori sy'n gwneud cais am LMO ddewis unrhyw opsiwn ar dir comin. Er hynny, os caiff ceisiadau LMO eu gwneud yr un pryd ar yr un tir (hynny yw gan borwyr unigol a chan y Gymdeithas Pori Tir Comin), all yr un opsiwn ddim cael ei hawlio gan borwyr unigol a'r Gymdeithas.

**2.** Cynllun lefel uwch yw **Blaenoriaethau Gwledig (RP)**[63] ac mae'n targedu blaenoriaethau rhanbarthol Echel 1, 2 a 3. Cafodd ardaloedd blaenoriaeth eu cytuno gyda'r rhanddeiliaid ar gyfer 11 rhanbarth yn yr Alban. Mae'r opsiynau'n cynnwys storio a thrin tail/slyri, dileu rhododendronau a lleihau halogiad bacteriol mewn dŵr. Mae'r cymorth ar gyfer opsiynau Echel 1 wedi'i **gapio ar £250,000.**[64]

---

[62] Llywodraeth yr Alban, *Rural Development Contract: Land Managers' Options Notes for Guidance*, 31 Mawrth 2008 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[63] Llywodraeth yr Alban, *Rural Development Contracts: Rural Priorities*, Rhagfyr 2007 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[64] Llywodraeth yr Alban, *Fresh Focus for Rural Priorities*, 3 Awst 2010 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]

Yn ychwanegol at yr RDC, caiff ffermwyr yn yr Alban sydd â mwy na thri hectar o dir yn yr ALFf wneud cais i **Gynllun Cymorth yr Ardaloedd Llai Ffafriol**. Mae'r taliadau'n amrywio rhwng £**32.50 yr hectar a £71.35 yr hectar** gan ddibynnu ar y dwysedd stocio a "breuder" yr ardal sy'n cael ei seilio ar gostau cludiant. Caiff y ffermwyr **isafswm tâl o £385** neu'r lwfans sydd wedi'i gyfrifo iddyn nhw, p'un bynnag yw'r mwyaf.[65]

## *3.3. Gogledd Iwerddon: Cynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon*

**Yn yr un modd â'r cynllun Glastir**, cynllun dwy haen yw Cynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon (NICMS), ac mae'n agored i bob fferm yng Ngogledd Iwerddon.[66] Er hynny, mae'r contractau'n cael eu dal am **10 mlynedd** a **does dim trothwy pwyntiau** i ymuno â'r cynllun.

**1.** Mae **taliadau fferm gyfan** yn agored i bob fferm. Does dim trothwy pwyntiau yn gymwys fel yn achos Glastir a'r ESS. Yn hytrach, mae'n rhaid i'r ffermydd gadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a chyrraedd Lefel Ofynnol o Fantais Amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys mynd i gyrsiau hyfforddiant amgylcheddol, dilyn Cynllun Rheoli Maeth a Gwastraff Fferm, cyfyngiadau ar ddefnyddio chwynleiddiaid a phlaleiddiaid, a dilyn gofynion rheoli rhagnodedig ar holl gynefinoedd y fferm. Mae'n rhaid hefyd i'r ffermydd wella un cynefin neu heneb hanesyddol ar y fferm. Os glaswelltir wedi'i wella neu glaswelltir wedi'i led-wella neu dir âr yn unig sydd gan y fferm, rhaid i'r fferm gyflawni un opsiwn bioamrywiaeth ac un opsiwn dŵr, er enghraifft cadw sofl dros y gaeaf (bioamrywiaeth) a phlannu coed cynhenid ar hyd y glannau (dŵr).

Caiff ffermydd gynnwys eu cyfran o **dir comin** yn y cytundeb ar yr amod bod yr holl borwyr eraill wedi gwneud yr un fath. Dylai gweundir gael ei gau rhag ei bori am ran o'r flwyddyn. Mae'r cyfnod cau yn dibynnu ar y math o weundir a'r stoc sy'n ei bori. Er enghraifft, dylai gweunydd grug gael eu cau rhwng 1 Tachwedd a 28/29 Chwefror bob blwyddyn (defaid) neu rhwng 1 Medi a 31 Mai (gwartheg ar weundir gwlyb). Mae yna ragor o gyfyngiadau ynglŷn â dwysedd stocio a gweithgareddau fel bwydo atodol, torri a llosgi mawn.

**2.** Mae **Mesurau Gwella** yn cynnwys taliadau ychwanegol am wella'r amgylchedd. Mae'r opsiynau'n cynnwys ychwanegu blychau i adar ac

[65] Y Gyfarwyddiaeth Taliadau Gwledig ac Arolygu, *Less Favoured Areas Support Scheme LFASS 2010-2013 Explanatory Notes*, Ebrill 2010 [wedi'i gyrchu 28 Ionawr 2011]
[66] DARDNI, *Countryside Management Scheme 2007-2013 Information booklet*, [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]

ystlumod, gwella gwelyau afonydd, rheoli rhedyn a rhododendronau ac adfywio grug.

Mae'r taliadau blynyddol yn amrywio o **£20 yr hectar i £500 yr hectar** gan ddibynnu ar gynefinoedd presennol y fferm ac unrhyw fesurau gwella ychwanegol y bydd y ffermwr yn eu dewis.[67,68]

Gall **Prosiectau Amgylchedd Arbennig** cystadleuol o **hyd at £5000** gael eu hariannu hefyd o dan yr NICMS (£6,000 os yw'r prosiect yn gynnig ar y cyd â deiliaid cytundeb eraill). Gallai'r prosiectau, er enghraifft, adfer adeiladau fferm traddodiadol, gosod cyfundrefn torri silwair sydd o les i adar sy'n nythu ar y llawr ac i ysgyfarnog Iwerddon, neu greu cynefinoedd newydd. Rhaid i'r cynigion fodloni nodau'r NICMS a chynnig gwerth am yr arian.

Er nad oes darpariaeth ar gyfer ffermydd tir uchel na ffermydd ALFf yn yr NICMS, mae nifer o opsiynau ar gael i fermydd tir uchel yn benodol er enghraifft rheoli gweundir. Er enghraifft, gall fferm 100 hectar ar dir uchel sydd â gweunydd grug a glaswelltir wedi'i led-wella fod yn gymwys i gael £64,000 dros gyfnod 10-mlynedd y cytundeb NICMS.[69] Caiff ffermydd mewn ALFf wneud cais hefyd i **Gynllun Lwfansau Iawndal yr Ardal Lai Ffafriol (LFACA).**

Caiff ffermydd sydd wrthi'n troi'n organig wneud cais i gynllun ar wahân, y **Cynllun Ffermio organig** am help gyda'r costau sy'n gysylltiedig â throi'n organig, ar yr amod nad ydyn nhw wedi gwneud cais o dan opsiwn Rheoli Organig yr NICMS. Mae'r taliadau'n amrywio o **£330-470 yr hectar** ym mlwyddyn gyntaf y cytundeb i **£30 yr hectar** ym mhumed flwyddyn (blwyddyn olaf) y cytundeb.[70]

## 4. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ddwywaith ar y dolenni.

Gwefan Llywodraeth Cymru ynghylch Glastir

Gwefan Natural England ynghylch Stiwardiaeth Amgylcheddol

Gwefan Llywodraeth yr Alban ynghylch Opsiynau Rheolwyr Tir a Blaenoriaethau Gwledig

Gwefan DARDNI (Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon) ynghylch Rheoli Cefn Gwlad

---

[67] DARDNI, *What is the Countryside Management Scheme worth to my farm?,* Tudalen gwe [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[68] DARDNI, *Countryside Management Rates of Payment 2008*, [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[69] DARDNI, *Countryside Management Scheme- upland options*, Tudalen gwe [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]
[70] DARDNI, *Organic Farming Scheme Information Booklet 2007-2013*, [wedi'i gyrchu 31 Ionawr 2011]